Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: **POLISI NAWDD**

Datganiad Polisi:

1. Diffinnir nawdd fel cais am arian gan grŵp cymunedol neu unigolyn i gefnogi digwyddiad neu ddarpariaeth benodol.

2. Mae'r Gymdeithas yn sefydliad "dim am elw" a dim ond swm cynnil o arian y bydd yn ei neilltuo bob blwyddyn ar gyfer nawdd.

3. Bydd Tai Canolbarth Cymru yn ystyried noddi digwyddiad neu ddarpariaeth sy'n cydymffurfio gydag un neu fwy o'r meini prawf a nodir islaw:-

   3.1. Bod y digwyddiad neu'r ddarpariaeth yn gysylltiedig ag amcanion busnes y Gymdeithas.

   3.2. Bod y digwyddiad neu ddarpariaeth yn rhoi budd i'r gymuned lle mae gan y Gymdeithas hefyd ddiddordeb neu ymgyfraniad.

   3.3. Bod y digwyddiad neu ddarpariaeth yn codi proffil cyhoeddus y Gymdeithas yn unol gyda nodau'r strategaeth farchnata a gytunwyd.

4. Bydd hefyd adroddiad i'r Bwrdd ar ganlyniadau'r digwyddiad neu ddarpariaeth. Nid yw'n rhaid i hyn fod yn adroddiad swmpus lle mae'r symiau dan sylw yn rhai cynnil.

5. Blaenoriaethau

Prif bwrpas nawdd yw codi proffil cyhoeddus y Gymdeithas yn unol gyda'r strategaeth farchnata a gytunwyd. Mae tair thema wahanol:

5.1. Noddi digwyddiadau fydd yn ysgogi cyhoeddusrwydd rhanbarthol neu genedlaethol;

5.2. Noddi digwyddiadau cymunedol fydd yn ysgogi diddordeb y gymuned yn y Gymdeithas;

5.3. Taliadau bach ar ddisgresiwn lle gall y Gymdeithas sicrhau ei chyhoeddusrwydd ei hun. Bydd y rhain ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

6. Cyhoeddusrwydd

6.1. Gall Tai Canolbarth Cymru ddymuno rhoi cyhoeddusrwydd i nawdd, a disgwylir i grwpiau y rhoddir nawdd iddynt ganiatáu hyn. Bydd y Gymdeithas yn cytuno gyda hwy beth fydd union natur y cyhoeddusrwydd, yn cynnwys geiriad datganiadau i'r wasg.

6.2. Caiff unrhyw gyhoeddusrwydd yn gysylltiedig â nawdd ei wneud gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru, ar ei chost ei hun. Os yw unrhyw grŵp yn dymuno rhoi cyhoeddusrwydd ar wahân neu annibynnol i nawdd (mewn cylchlythyr, er enghraifft), rhaid cytuno ar y geiriad gyda Tai Canolbarth Cymru.

7. Cyfyngiadau Nawdd

7.1. Mae darpariaeth nawdd ar ddisgresiwn y Prif Weithredydd, ac eithrio cyllideb fechan sydd ar ddisgresiwn y Cadeirydd.

7.2. Bydd y Prif Weithredydd yn anelu defnyddio cyllideb nawdd y Gymdeithas i gynyddu'r effaith i'r uchaf o fewn ei hardal weithredu.

7.3. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i ddigwyddiad neu ddarpariaeth a/neu sefydliad lleol[1].

7.4. Ni fydd y Gymdeithas fel arfer yn noddi digwyddiad neu ddarpariaeth lle mae adnoddau ar gael drwy gyllid prif ffrwd neu statudol. Felly fel arfer bydd ceisiadau ar gyfer cyllid graddfa-fawr neu geisiadau gan gyrff statudol y tu allan i gwmpas y polisi yma. Bydd yn ystyried nawdd o'r fath lle bydd ei ymgyfraniad yn "datgloi" symiau mawr o gyllid, ond bydd angen cymeradwyaeth y Bwrdd i ddigwyddiadau o'r fath.

Meysydd Perfformiad Allweddol:

A. Hyrwyddo amcanion corfforaethol a gytunwyd fel y diffinnir o fewn y Cynllun Busnes.
B. Cynnydd canfyddadwy ym mhroffil y Gymdeithas a welir drwy sylw yn y cyfryngau.
C. Gwelliant canfyddadwy yn enw da'r Gymdeithas yn yr ardal.

Cyfeirnod:	Polisi Nawdd - F2 (Mawrth 2011)
Diben:	Codi proffil y Gymdeithas Hwyluso amcanion corfforaethol y Gymdeithas
Dyddiad cyhoeddi:	Mawrth 2011.
Dyddiad adolygu:	Mawrth 2014.
Adrannau/Unedau yr Effeithiwyd arnynt:	Y cyfan
Cymeradwywyd gan:	Cyflwynwyd i'r Bwrdd 23 Mawrth 2011
Swyddog Arweiniol:	Prif Weithredydd
Cydymffurfiaeth Statudol	• Nid oes gofyniad statudol penodol i gael polisi o'r fath. • Gofyniad eang i sicrhau defnydd darbodus o gronfeydd cyhoeddus.

[1] Diffinnir lleol fel bod o fewn neu o fudd i'r cymunedau neu bobl Powys neu Geredigion.

Ffactorau Risg Strategol	Nawdd ar gyfer digwyddiad neu sefydliad fydd yn achosi niwed i enw da'r Gymdeithas.	
Archwiliad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	Gall unrhyw a phob grŵp lleoli wneud cais am nawdd.
	A deimlir y medrai'r polisi fod ag effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	Diben sylfaenol y polisi yw codi proffil y Gymdeithas. Gallai hyn olygu fod grwpiau neilltuol gyda nodweddion arbenigol yn llai tebygol o gael eu cefnogi, gan y gall "effaith" y nawdd fod yn llai.
	A ymgynghorwyd â grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly, beth oedd y canlyniad?	Na
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	• Nid yw'r polisi yma'n cyfeirio'n uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaethau i denantiaid. • Mewn ystyr ehangach, gall codi proffil y Gymdeithas wella mynediad i adnoddau eraill a all yn eu tro fod o fudd i denantiaid.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	Y syniad tu ôl i noddi digwyddiadau cymunedol yw gwneud y Gymdeithas yn rhan o'r gymuned ac yn rhannol i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig gyda thai cymdeithasol
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	Na.